Newid sylweddol i fynd i'r afael â TB buchol (bTB) yng Nghymru: Gwartheg, Pobl a Bywyd Gwyllt - Cyngor gan Fwrdd y Rhaglen Dileu TB Buchol

Ymateb Llywodraeth Cymru

Crynodeb Gweithredol

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu papur Bwrdd y Rhaglen ac yn cefnogi'r cyfeiriad a nodwyd yn ei gyngor. Mae'r cyngor yn rhoi sylfaen gryf ar gyfer cam nesaf y Rhaglen Dileu TB Buchol yng Nghymru, gyda mwy o bwyslais ar ddull cyfannol sy'n cynnwys gwartheg, pobl a bywyd gwyllt, sydd wedi'i lywio gan dystiolaeth ac sy'n ymatebol i amgylchiadau epidemiolegol lleol.

Mae'r ymateb hwn yn ein symud o gyngor i weithredu, a byddwn yn dechrau gwaith ar unwaith lle y gellir gwneud hyn yn gyfrifol, ac yn datblygu'r dystiolaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniadau cadarn yn y tymor hwy.

Mae'r camau gweithredu cychwynnol yn cynnwys:

- Nodi bylchau mewn tystiolaeth a gwybodaeth sy'n flaenoriaeth.
- Gwaith dadansoddi a modelu epidemiolegol.
- Datblygu gwaith arolwg wedi'i dargedu o boblogaethau o foch daear lle mae bylchau yn y dystiolaeth yn ei gyfiawnhau.
- Hyrwyddo gwyliadwriaeth ceirw.
- Archwilio allfeydd diogel ar gyfer gwartheg o fuchesi sydd o dan gyfyngiadau TB.
- Datblygu opsiynau sy'n ymwneud â buchesi ag achosion parhaus gan gynnwys:
    - profion diagnostig ychwanegol
    - cyngor i ffermwyr a chyngor milfeddygol
    - data a gwybodaeth am risg.

Bydd y rhain yn rhan o raglen fesul cam a fydd yn rhedeg drwy gydol 2027, a thu hwnt. Bydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu opsiynau polisi ac unrhyw ymgynghoriad sydd ei angen ac yn rhoi'r sail ar gyfer Cynllun Dileu TB Buchol newydd.

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu cyngor ystyriol Bwrdd y Rhaglen Dileu TB Buchol a'i alwad am newid sylweddol o ran pa mor gyflym y mae TB yn cael ei ddileu yng Nghymru a sut y cyflawnir hynny. Mae'r rhaglen wedi datblygu'n raddol wrth i'r dystiolaeth a'n dealltwriaeth o'r clefyd ddatblygu ac wedi rhoi mwy o bwyslais ar weithio mewn partneriaeth - gan gynnwys sefydlu trefniadau llywodraethu newydd drwy Fwrdd y Rhaglen Dileu TB Buchol a'r Grŵp Cyngor Technegol.

Mae cyngor diweddaraf y Bwrdd yn gyfle pwysig i adeiladu ar y sylfeini hyn ac rydym yn cefnogi mynd i gyfeiriad dull cyfannol, sy'n seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth, ar gyfer gwartheg, pobl a bywyd gwyllt, gan gyfuno rheolaethau cenedlaethol

effeithiol â chamau lleol cymesur, fel y bo'n briodol. Byddwn yn datblygu Cynllun Dileu TB newydd sy'n dilyn yr egwyddorion hyn, a bydd dull partneriaeth addasol wrth ei wraidd.

Mae yna gamau gweithredu a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn y tymor byr, gan gynnwys:

- Dewis o ddulliau o reoli buchesi ag achosion parhaus ar lefel uwch.
- Newidiadau i brofion gwartheg.
- Gweithio gyda'r diwydiant i archwilio opsiynau ar gyfer allfeydd diogel ar gyfer gwartheg sy'n cael eu symud o fuchesi sydd o dan gyfyngiadau.
- Datblygu dull newydd o roi cyngor ar TB i ffermwyr a milfeddygon.
- Mwy o ymwneud gan ffermwyr a milfeddygon preifat lleol wrth reoli risg TB ar lefel y fuches.
- Gwell mynediad at ddata, gwybodaeth am risg ac ibTB (adnodd mapio TB rhyngweithiol).
- Casglu data ar rôl bywyd gwyllt mewn TB er mwyn llywio ymyriadau cymesur ac wedi'u targedu, pan fo'r dystiolaeth yn cefnogi'r rhain.
- Defnyddio gwaith dadansoddi a modelu epidemiolegol i ddeall yr hyn sy'n sbardun i drosglwyddo'r clefyd ac i lywio ymyriadau.

Cefndir

Cyflwynwyd y Rhaglen Dileu TB Buchol gyntaf gan Lywodraeth Cymru flaenorol yn 2008.Mae wedi cyflwyno rheolaethau'n raddol, wedi'u llywio gan brosesau ymgynghori a chasglu tystiolaeth.

Mae'r dull gweithredu hwn wedi sicrhau gwelliant sylweddol dros yr hirdymor, sy'n parhau. Ar ddiwedd mis Mehefin 2026, roedd 95.7% o fuchesi Cymru heb TB. Bu 477 o achosion newydd yn ystod y 12 mis blaenorol, 59.7% yn llai na lefel 2009, a bu gostyngiad o 71.1% yn nifer y buchesi a oedd o dan gyfyngiadau dros yr un cyfnod. Roedd mynychder mewn buchesi wedi gostwng o 7.8% yn 2009 i 4.3% ym mis Mehefin 2026 (Tabl 1).

Tabl 1: Sefyllfa TB Cymru, Mehefin 2026 (yr ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd) o gymharu â 2009

	12 mis hyd at fis Rhagfyr 2009	12 mis hyd at fis Mehefin 2026	Newid canrannol
Achosion Newydd	1,185	477	Gostyngiad o 59.7%
Anifeiliaid a Laddwyd	11,655	10,090	Gostyngiad o 13.4%
Buchesi o dan gyfyngiadau	2,268	655	Gostyngiad o 71.1%
Mynychder mewn Buchesi	7.8%	4.3%	Gostyngiad o 44.9%

Dylid ystyried y gwelliannau hyn dros yr hirdymor ochr yn ochr ag amrywiadau a welir o hyd yn y clefyd, boed hynny'n ofodol neu dros amser, a bod TB yn parhau i achosi her gymhleth.Mae Tabl 2 isod yn dangos data o'u cymharu â'r 12 mis blaenorol gyda gostyngiadau yn parhau.

Tabl 2: Newidiadau diweddar mewn prif ddangosyddion TB buchol ledled Cymru

	12 mis hyd at fis Mehefin 2025	12 mis hyd at fis Mehefin 2026	Newid canrannol
Achosion Newydd	616	477	Gostyngiad o 22.6%
Anifeiliaid a Laddwyd	13,032	10,090	Gostyngiad o 22.6%
Buchesi o dan gyfyngiadau	835	655	Gostyngiad o 21.2%
Mynychder mewn Buchesi	5.7%	4.3%	Gostyngiad o 24.6%

Er bod y ffigurau hyn yn dangos cynnydd dros gyfnod estynedig, daw Papur Sefyllfa Bwrdd y Rhaglen i'r casgliad ar sail tueddiadau cyfredol o ran y clefyd, ei bod yn annhebygol y bydd Cymru yn cyrraedd ei tharged ar gyfer 2041 oni fydd y cynnydd yn cael ei wneud dipyn yn gyflymach. Mae'n galw am newid sylweddol mewn ymdrech, adnoddau ac ymyriadau polisi cyfannol o dan y tri philer, sef gwartheg, pobl a bywyd gwyllt, gan gyfuno rheolaethau cenedlaethol â chamau lleol cymesur, wedi'u targedu, a ategir gan dystiolaeth, gwaith modelu, gweithio mewn partneriaeth a gwerthusiad clir.

Rhanbartholi: teilwra ymateb at risg o'r clefyd

Adnewyddodd Cymru ei strategaeth ddileu yn 2017, gan bennu targed o fod heb TB yn swyddogol erbyn 2041, a sefydlu dull wedi'i ranbartholi o reoli'r clefyd. Roedd hyn yn cydnabod sut mae ymateb cenedlaethol unffurf yn methu ag adlewyrchu'r gwahaniaethau daearyddol sylweddol yn y risg o glefyd. Gellir gweld ardaloedd TB Cymru yma: Rhanbartholi TB Cymru | MapDataWales

Adeiladodd Cynllun Cyflawni 2023 ar y cynnydd a wnaed, gan roi mwy o bwyslais ar weithio mewn partneriaeth rhwng y Llywodraeth, y diwydiant ffermio a'r proffesiwn milfeddygol. Cyflwynodd 'Prosiect Sir Benfro' a oedd yn hyrwyddo ymgysylltu rhwng ffermwyr a milfeddygon a sefydlodd y Grŵp Cyngor Technegol yn 2024 i roi cyngor gwyddonol a thechnegol arbenigol annibynnol. Yna, sefydlwyd Bwrdd y Rhaglen Dileu TB Buchol, a oedd yn dwyn ffermwyr, milfeddygon, undebau amaeth a chynrychiolaeth o sefydliadau cadwraeth a bywyd gwyllt ynghyd, gan ddefnyddio arbenigedd ymarferol i ddatblygu polisïau.

Ymateb y Llywodraeth i 'Newid sylweddol wrth fynd i'r afael â bTB yng Nghymru'

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu ac yn cefnogi cyngor Bwrdd y Rhaglen. Rydym yn cytuno bod angen newid sylweddol o ran pa mor gyflym y mae TB yn cael ei ddileu a sut y cyflawnir hynny. Ni fydd unrhyw fesur unigol yn dileu TB mewn gwartheg - rhaid inni weithio'n adeiladol gyda'n gilydd a mynd i'r afael â phob llwybr haint, gan ystyried gwartheg, pobl a bywyd gwyllt gyda'i gilydd yn hytrach na thrin pob un ar ei ben ei hun.

Mae cyngor Bwrdd y Rhaglen yn adeiladu ar raglen sydd wedi datblygu law yn llaw â thystiolaeth wyddonol, dealltwriaeth epidemiolegol a phrofiad ymarferol. Mae ein hegwyddor yn syml: dylai ymyriadau ddilyn y clefyd. Bydd gan reolaethau cenedlaethol effeithiol a dulliau lleol cymesur ac wedi'u targedu, rôl i'w chwarae, gan adlewyrchu'r risgiau mewn mannau penodol. Yn yr un modd, nid yw hon yn rhaglen y gall, neu y dylai, y Llywodraeth ei chyflawni ar ei phen ei hun. Er mwyn llwyddo bydd angen i ffermwyr, milfeddygon preifat, APHA, gwyddonwyr, rhanddeiliaid a'r Llywodraeth gydweithio, deall a chyflawni polisïau gyda'i gilydd.

Byddwn yn dechrau gwaith cwmpasu ac asesu ar yr holl gyngor a roddwyd gan Fwrdd y Rhaglen. Gellir bwrw ymlaen â rhai gweithgareddau ar unwaith. Bydd angen rhagor o dystiolaeth, gwaith modelu, cydlunio ac asesu ar gyfer eraill. Efallai y bydd angen ymgynghoriad neu newidiadau deddfwriaethol hefyd. Serch hynny, o dan ein dull newydd byddwn yn gweithredu ac yn addasu, gan wneud cynnydd lle y gallwn a hefyd ymgymryd â gwaith pellach ochr yn ochr â hynny. Bydd y penderfyniadau yn seiliedig ar ymchwil sy'n mynd rhagddi a thystiolaeth a gwaith modelu epidemiolegol a ddatblygwyd gan APHA ac arbenigwyr eraill.

Mae hyn yn adlewyrchu cyngor Bwrdd y Rhaglen: datblygu a deall y dystiolaeth, modelu newidiadau arfaethedig, deall y cyfaddawdau a'r risgiau, a chyflwyno ymyriadau mewn dilyniant priodol. Rhaid i bob ymyriad gynnwys tystiolaeth glir a mesurau o lwyddiant fel ein bod yn gwybod beth sy'n gweithio, yn gallu ymaddasu lle y bo angen ac yn gallu dangos gwerth am arian.

Mae'r gwaith hwn yn dechrau nawr. Drwy weddill 2026 ac yn ystod 2027, byddwn yn cwmpasu, yn asesu, yn costio ac yn datblygu'r saith gweithgarwch â blaenoriaeth a nodwyd gan Fwrdd y Rhaglen, sy'n ymwneud â gwartheg, pobl a bywyd gwyllt. Byddwn yn symud o gyngor i weithredu, gan ddatblygu mesurau y gellir eu cymryd yn gyfrifol a hefyd adeiladu'r dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau pellach. Rhaid i newidiadau ddiogelu rheolaethau'r clefyd, iechyd a lles anifeiliaid a phobl, parhad busnes a pharhau i fod yn fforddiadwy ac yn gyflawnadwy.

Ymateb i flaenoriaethau uniongyrchol Bwrdd y Rhaglen

1. Mae Bwrdd y Rhaglen yn cynghori y dylai fod dewis o ddulliau ar gael i reoli buchesi ag achosion parhaus ar lefel uwch

Dylai buchesi ag achosion parhaus fod yn grŵp â blaenoriaeth ar gyfer gweithredu cyflymach. Dylai ffermwyr, gan weithio'n agos gyda'u milfeddyg preifat eu hunain, gael y dewis ar sail gwybodaeth i wneud y canlynol:

i Parhau â'r protocolau Rheoli Uwch presennol ar gyfer Achosion Parhaus, neu,

ii. Mabwysiadu dull newydd o reoli haint TB sy'n ei waredu yn eu buches drwy adnabod a rheoli proses ymadael i wartheg risg uchel gan ddefnyddio data profion TB ochr yn ochr â mesurau eraill megis bioddiogelwch buchesi. Dylid ehangu'r defnydd o brofion preifat, anstatudol megis profion gwaed ategol yn y buchesi hyn er mwyn rhoi cyfle i reoli'r clefyd yn fwy rhagweithiol.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>: Datblygu dewis o ddulliau i reoli buchesi ag achosion parhaus ar lefel uwch a sicrhau eu bod ar gael

Byddwn yn blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu dull amgen o ymdrin â buchesi ag achosion parhaus, gan roi dewis i ffermwyr a'u milfeddygon allu chwarae rhan fwy gweithredol i reoli'r clefyd a'r risg mewn buchesi lle y gwelir achosion parhaus.

Byddwn yn defnyddio prosiectau Sir Benfro, Gogledd Cymru a Nant y Garth, ochr yn ochr â thystiolaeth filfeddygol ac epidemiolegol, i ddatblygu ac asesu dulliau amgen.

Byddwn yn asesu newidiadau i gyfnodau profi, profion diagnostig ychwanegol, bioddiogelwch, cyfyngiadau symud a llwybrau a reolir ar gyfer anifeiliaid risg uwch fel pecyn cydlynol, ac nid fel mesurau ar wahân. Cyn newid polisïau yn sylweddol, byddwn yn gwerthuso eu goblygiadau cyfunol o ran y risg o glefyd, iechyd anifeiliaid, parhad busnes, gallu cyflawni a'r gyfundrefn statudol ehangach.

Yn unol ag argymhelliad y Bwrdd, bydd unrhyw newid i gyfnodau hwy rhwng profion croen ar lefel y fuches yn destun asesiad milfeddygol ac epidemiolegol.

2. Mae Bwrdd y Rhaglen yn cynghori y dylid datblygu opsiynau ar gyfer defnyddio gwahanol brofion TB statudol ac anstatudol ar gyfer gwyliadwriaeth, rheoli achosion a lleihau risg wrth symud gwartheg

Er y dylai profion croen statudol ar fuchesi barhau, dylid rhoi mwy o ddewis i ffermwyr a milfeddygon o ran profion TB i'w helpu i ganfod achosion yn gynharach a rheoli risg yn well. Er enghraifft, byddai caniatáu mynediad at brofion TB ategol a ariennir yn breifat yn ystod achosion ac mewn buchesi â Statws Heb TB Swyddogol yn helpu i nodi haint yn gynharach a chefnogi gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar risg.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>: Hyrwyddo opsiynau ar gyfer defnyddio profion ategol ar gyfer gwartheg mewn gwahanol leoliadau

Byddwn yn datblygu opsiynau i ddefnyddio profion statudol ac anstatudol yn effeithiol ar gyfer gwyliadwriaeth, rheoli achosion a lleihau risg wrth symud gwartheg, gan barhau â phrofion croen statudol ar fuchesi.

Byddwn yn gweithio gyda Defra i ddatblygu a chysoni polisïau a dulliau cyflawni er mwyn cynnig mwy o fynediad at brofion anstatudol ategol, gan nodi lle gall gwahanol brofion ychwanegu gwerth.

Byddwn yn profi newidiadau arfaethedig yn erbyn perfformiad diagnostig, goblygiadau epidemiolegol, gallu gweithredol i'w cyflawni a modelu sut maent yn rhyngweithio â'r rhaglen ehangach. Gall newidiadau rheoleiddiol neu bolisi sylweddol fod yn destun ymgynghoriad ac asesiad effaith priodol.

3. Mae Bwrdd y Rhaglen wedi gofyn i Lywodraeth Cymru archwilio ffyrdd o wella mynediad at unedau bioddiogel a chadwyn gyflenwi fioddiogel

Ar gyfer buchesi o dan gyfyngiadau TB, mae angen allfeydd masnachol priodol ar gyfer da byw nad ydynt ychwaith yn cynyddu'r risg o ledaenu TB drwy symudiadau gwartheg. Gall heriau o ran cyllid, seilwaith a rhwystrau rheoleiddio gyfyngu ar y gwaith o ddatblygu a gweithredu Unedau Pesgi Cymeradwy neu unedau bioddiogel arbenigol eraill ar gyfer gwartheg o fuchesi sydd o dan gyfyngiadau. Dylid archwilio ffyrdd o gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio cadwyn gyflenwi fioddiogel, ei hadnoddau a'i hymarferoldeb, heb wanhau mesurau diogelu i reoli'r clefyd, a dylid gwerthuso a yw'r rheolau presennol yn gymesur â'r risg.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>: Gweithio gyda'r diwydiant i archwilio opsiynau ymarferol ar gyfer allfeydd diogel a chynaliadwy ar gyfer gwartheg o fuchesi sydd o dan gyfyngiadau

Ein nod yw galluogi llwybrau ymarferol sy'n helpu busnesau yr effeithir arnynt gan gyfyngiadau TB i barhau i weithredu, a pharhau i reoli'r clefyd yn effeithiol ar yr un pryd.

Gan weithio gyda'r diwydiant, byddwn yn nodi, yn asesu ac yn galluogi cyfleoedd i'r diwydiant wella mynediad at lwybrau bioddiogel priodol ac yn cryfhau gwydnwch y gadwyn gyflenwi ar gyfer gwartheg.

Bydd yr asesiad hwn yn cynnwys mynd i'r afael â chwestiynau ynghylch y farchnad fasnachol a llwybrau lladd a chysondeb â gofynion deddfwriaethol. Gan fod y rhan fwyaf o wartheg o fuchesi sydd o dan gyfyngiadau TB yn symud i unedau cymeradwy sydd wedi'u lleoli yn Lloegr, bydd newidiadau polisi yn cael eu hystyried mewn partneriaeth â Defra.

4. Mae Bwrdd y Rhaglen yn cynghori y dylid sefydlu gwasanaeth cynghori newydd a chynyddu cyfranogiad ffermwyr a milfeddygon preifat lleol.

Mae bioddiogelwch priodol, gan gynnwys prynu ar sail gwybodaeth, yn parhau i fod yn fesur amddiffyn hanfodol yn erbyn cyflwyno a lledaenu TB Buchol. Mae'r ffordd y mae ffermwyr yn ymgysylltu yn dibynnu ar ymddiriedaeth, perthnasedd ymarferol a pherchnogaeth. Dylai deunyddiau cyfathrebu ddefnyddio iaith glir, annhechnegol, tystiolaeth leol a manteision meintioledig i fusnesu lle y bo modd.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>: Datblygu arlwy cynghori cryfach gyda ffermwyr a milfeddygon preifat

Rhaid i ffermwyr a'u milfeddygon gael yr wybodaeth, y cyngor a'r cyfle i gymryd rhan weithredol yn y gwaith o reoli'r clefyd. Byddwn yn gwneud yr egwyddor hon yn ganolog i'n dull gweithredu, ochr yn ochr â pharhau i weithio mewn partneriaeth a rhoi cyfleoedd i wahanol sectorau fwrw ymlaen â gweithgareddau. Mae pwysigrwydd cysondeb gwybodaeth a dealltwriaeth yn ymwneud â TB buch hefyd yn cael ei gydnabod yn glir. Byddwn yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o weithgarwch rhanbarthol

presennol, gan gynnwys y prosiectau yng Ngogledd Cymru a Sir Benfro i wella cymorth rhwng ffermwyr, milfeddygon preifat, APHA a Llywodraeth Cymru. Bydd arbenigedd rhanddeiliaid, megis y partneriaethau cyflawni milfeddygol a'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth yn helpu i lywio'r gwelliannau hyn.

5. Mae angen i ffermwyr, milfeddygon preifat a chynghorwyr gael mynediad gwell ac amserol at ddata ar y clefyd ar lefel fferm, gwybodaeth epidemiolegol a chanllawiau

Mae Prosiect Sir Benfro wedi dangos gwerth data ar lefel fferm ac anifeiliaid o ran nodi risgiau sy'n gysylltiedig â'r clefyd a llywio penderfyniadau ar reoli a hwsmonaeth sy'n lleihau'r effaith ar fusnesau neu risg o'r clefyd. Dylid adolygu gwersi ac adborth o Brosiectau TB Sir Benfro a Gogledd Cymru ar fyrder a gweithredu opsiynau rheoli yn gyflym pan fo'r dystiolaeth yn cefnogi eu mabwysiadu'n ehangach. Yn yr un modd, dylid annog a defnyddio dulliau arloesol i gefnogi dull 'dysgu drwy wneud'.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>: Hyrwyddo mynediad gwell at wybodaeth am y risg o TB, gyda mesurau diogelu clir a phriodol

Byddwn yn gwella mynediad at wybodaeth ystyrlon am y clefyd a risgiau fel y gall ffermwyr a milfeddygon wneud penderfyniadau mwy gwybodus.

Byddwn yn nodi'r wybodaeth ychwanegol ar lefel buches, anifeiliaid ac ardal, a fyddai fwyaf defnyddiol i gefnogi penderfyniadau ynglŷn ag atal y clefyd, prynu a rheoli'r fuches.

Byddwn yn rhoi prawf ar gynigion i gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol ar y cyd â rhanddeiliaid yr effeithir arnynt cyn eu gweithredu ac yn diwygio deddfwriaeth alluogi os bydd angen.

6. Casglu data ar rôl bywyd gwyllt mewn TB er mwyn llywio penderfyniadau ar ymyriadau cymesur ac wedi'u targedu

Bydd angen i Gymru ddatblygu polisi ar gyfer atal trosglwyddo *M. bovis* rhwng gwartheg a bywyd gwyllt a'i roi ar waith fel rhan o'i huchelgais i ennill Statws Heb TB Swyddogol erbyn 2041. Mae'r dystiolaeth o bob rhan o'r DU yn dangos bod achosion o'r clefyd a'i drosglwyddo nid yn unig yn dibynnu ar nifer o ffactorau ond eu bod hefyd yn benodol i ardal leol. Rhaid sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gasglu tystiolaeth a gwybodaeth am lwybrau bywyd gwyllt o drosglwyddo'r clefyd yma yng Nghymru, gan roi blaenoriaeth i waith modelu epidemiolegol ac economaidd.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>: Hyrwyddo gwyliadwriaeth bywyd gwyllt a phennu ymyriadau cymesur ac wedi'u targedu sy'n seiliedig ar y dystiolaeth

Byddwn yn cryfhau tystiolaeth ynglŷn â bywyd gwyllt sy'n benodol i Gymru er mwyn llywio opsiynau ynghylch ymyriadau cymesur ac wedi'u targedu.

Bydd gwyliadwriaeth ychwanegol a gwaith casglu tystiolaeth yn dechrau nawr. Byddwn yn asesu'r dystiolaeth bresennol, yn ymchwilio i nodweddion poblogaethau

o foch daear ac yn bwrw ymlaen ag arolygon a gwaith maes wedi'u targedu os bydd bylchau yn y dystiolaeth yn parhau. Gall hyn gynnwys profi, brechu a rhyddhau neu waredu moch daear mewn ardaloedd peilot. Byddwn hefyd yn hyrwyddo gwyliadwriaeth ceirw gwyllt.

Gall canlyniadau'r gwaith hwn fod yn sail i ymgyngoriadau yn y dyfodol ar ddull cyfannol o fynd i'r afael â TB buchol, gan gynnwys ymyriadau bywyd gwyllt. Gall gweithgarwch brechu moch daear barhau heb ymgynghori ymhellach, fel polisi presennol Llywodraeth Cymru.

7. Bydd Bwrdd y Rhaglen yn cymeradwyo'r defnydd o waith dadansoddi a modelu epidemiolegol i ddeall yr hyn sy'n sbardun i drosglwyddo'r clefyd ac i lywio ymyriadau

Mae'r defnydd o Ddilyniannu Genom Cyfan mewn gwartheg a bywyd gwyllt yn helpu Tîm Epidemiolegol APHA i nodi'n rhagweithiol ardaloedd lle mae'r clefyd yn dod i'r amlwg neu'n datblygu. Byddai hefyd yn ei gwneud yn bosibl i fabwysiadu dull mwy cyfannol o reoli'r clefyd gan ddefnyddio adnoddau dadansoddi a modelu i nodi pa ffynonellau tebygol i'w priodoli. Os bydd y dystiolaeth epidemiolegol yn awgrymu bod risg o glefyd mewn gwartheg a bywyd gwyllt, dylid ymyrryd. Byddai dadansoddiad systematig yn sicrhau y byddai'r ymyriad cywir, gyda metrigau wedi'u diffinio'n glir, yn cael ei ddefnyddio, yn seiliedig ar y ffactorau sy'n sbardun i'r clefyd yn yr ardal leol.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>: Ymgorffori gwaith dadansoddi a modelu epidemiolegol drwy'r rhaglen gyfan

Bydd epidemioleg a gwaith modelu yn sail i'r rhaglen gyfan, yn hytrach na bod yn ffrwd waith ar wahân. Byddwn yn gweithio gydag APHA a, lle y bo'n fuddiol, arbenigwyr priodol eraill i ddiffinio'r gwaith dadansoddi a modelu sydd ei angen i ddeall yr hyn sy'n sbardun i'r clefyd ac asesu pecynnau polisi amgen.

Byddwn yn defnyddio'r gwaith dadansoddi hwn i asesu lle y gellir cyfiawnhau ymyriad, a pha gyfuniadau o fesurau sydd fwyaf tebygol o wella'r gwaith o reoli'r clefyd heb greu canlyniadau anfwriadol niweidiol.

Cyngor ategol gan Fwrdd y Rhaglen

Mae Bwrdd y Rhaglen yn nodi'r mesurau cefnogol a'r cyngor canlynol i ategu'r saith prif flaenoriaeth, fel y'u crynhoir uchod:

- **Brechu gwartheg.** Parhau â gwaith paratoadol i fanteisio ar y gallu i frechu gwartheg a phrofi DIVA yn y dyfodol, fel rhan o weithgareddau sy'n mynd rhagddynt ledled Prydain Fawr.

- **Adweithyddion Amhendant dehongliad llym a gliriwyd.** Cynnal yr adolygiad arfaethedig, gan ystyried y dystiolaeth ynglŷn â haint gweddilliol a gwahaniaethau mewn polisi rhwng Cymru a Lloegr.

- **Ymgysylltu ag APHA a chymorth rheoleiddiol.** Cefnogi'r cyfeiriad cyffredinol, gan gydnabod y bydd goblygiadau o ran adnoddau er mwyn cyflawni hyn. Mae'n debygol y bydd angen adnoddau ychwanegol yn APHA ar gyfer rhai mesurau/pob mesur.

- **Gwybodaeth, cyfathrebu a chymorth i ffermwyr.** Byddwn yn bwrw ymlaen â gwelliannau i wybodaeth a phrosesau cyfathrebu cliriach a hygyrch am TB bellach.

- **Cysondeb rheoleiddiol.**Mapio ardaloedd lle mae mesurau TB yn rhyngweithio â chyfundrefnau rheoleiddio eraill a nodi materion y mae angen eu hystyried yn ehangach gan y llywodraeth. Yn benodol, rhyngweithio â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

Ymgynghori, ymchwil a modelu

Ni fyddwn yn dehongli'r angen am ragor o dystiolaeth fel rheswm dros beidio â gweithredu. Yn yr un modd, ni ddylai gweithredu ar fyrder olygu rhoi newidiadau polisi sylweddol ar waith cyn deall eu goblygiadau yn llwyr.

Felly byddwn yn dilyn dau linyn ar yr un pryd: gwaith ar unwaith i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth a datblygu ymyriadau y gellir eu cyflawni, a pharatoi'r newidiadau polisi sylweddol hynny a allai ofyn am ymgynghori, modelu, gwerthuso neu ymchwil bellach cyn eu rhoi ar waith.

Bydd tystiolaeth yn cael ei hystyried yn ei chyfanrwydd. Bydd gwaith asesu a modelu epidemiolegol APHA yn arbennig o bwysig, ond bydd penderfyniadau hefyd yn ystyried cyngor y Grŵp Cyngor Technegol, tystiolaeth weithredol a milfeddygol, ymchwil a phrofiadau o fannau eraill, asesiad deddfwriaethol ac economaidd, a barn rhanddeiliaid a'r cyhoedd, gan ymgynghori lle y bo angen.

Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl inni fabwysiadu dull gweithredu ac addasu, a chyflwyno ymyriadau a'u monitro'n ofalus, gan addasu lle y bo angen ac yn unol â thystiolaeth.

Rhaglen waith gychwynnol gan Lywodraeth Cymru

Bydd cam cychwynnol y gwaith yn canolbwyntio ar gwmpasu, asesu, costio a datblygu meysydd cyngor â blaenoriaeth Bwrdd y Rhaglen, gyda chymorth gwerthusiad epidemiolegol sy'n parhaus, gwaith modelu, gwyliadwriaeth a gwaith maes. Bydd y dull hwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn llywio'r gwaith o ddatblygu opsiynau polisi yn y dyfodol ac unrhyw ymgynghoriad dilynol, gyda'r nod o gyhoeddi Cynllun Dileu TB Buchol wedi'i ddiweddaru a chyflwyno newidiadau pellach i'r rhaglen wrth i'r dystiolaeth ddatblygu.

Byrdymor: y chwe mis nesaf

- **Comisiynu dadansoddiad epidemiolegol penodol pellach a gwaith modelu polisïau gan APHA**, gan gynnwys poblogaethau o fywyd gwyllt, cydberthnasau rhwng y clefyd a gwartheg/bywyd gwyllt ac asesiad o ymyriadau a pholisïau posibl yn y dyfodol. Rhagwelwn y bydd gwaith APHA yn parhau drwy gydol gweddill 2026 ac yn 2027.
- **Cwmpasu gallu dadansoddi neu fodelu allanol ychwanegol lle mae hynny'n ychwanegu gwerth**, yn enwedig lle mae cymhariaeth annibynnol neu wybodaeth arbenigol yn ategu gwaith APHA.
- **Archwilio opsiynau ymarferol ar gyfer allfeydd diogel a chynaliadwy ar gyfer gwartheg o fuchesi sydd o dan gyfyngiadau TB**, gan weithio gyda'r diwydiant ac eraill.
- **Datblygu cynigion ar gyfer gwaith arolwg ar boblogaethau o foch daear**, wedi'u targedu gan dystiolaeth epidemiolegol a bylchau mewn gwybodaeth a nodwyd, fel y gall gwaith maes ddechrau ar ddechrau 2027 lle y bo cyfiawnhad dros hynny.
- **Bwrw ymlaen â gwyliadwriaeth TB mewn ceirw gwyllt**, mae trefniadau gwyliadwriaeth ceirw yn cael eu datblygu ar y cyd â phartneriaid cyflawni a rhanddeiliaid perthnasol.
- **Datblygu opsiynau ar gyfer mynediad ehangach at brofion diagnostig ategol**, gan nodi'r cwestiynau milfeddygol, rheoleiddiol, epidemiolegol a chyflawni y bydd angen eu hateb cyn newid.
- **Datblygu fframwaith gwerthuso ochr yn ochr â'r polisïau**, gan ddiffinio gwybodaeth llinell sylfaen a mesurau o lwyddiant cyn cyflwyno ymyriadau.
- **Tymor canolig: o fewn 12 mis**

- **Cwmpasu'r arlwy o gyngor ar TB yn y dyfodol**, gan gynnwys rolau priodol ffermwyr, milfeddygon preifat, APHA, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill.
- **Mapio gwelliannau mewn data**, gan nodi pa wybodaeth risg ychwanegol y gellid ei darparu a pha faterion a allai ofyn am ymgynghoriad neu newidiadau rheoleiddiol.
- **Nodi dibyniaethau a rhwystrau rheoleiddiol**, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o ryngweithio rheolaethau TB â rheoliadau amaethyddol ehangach.
- **Gwelliannau mewn prosesau cyfathrebu** er mwyn gwella mynediad at wybodaeth glir ymhellach.
- **Diffinio dull diwygiedig o ymdrin â buchesi sydd ag achosion parhaus**, gan ddefnyddio tystiolaeth o brosiectau Sir Benfro a Gogledd Cymru, ac asesu goblygiadau o ran profi, rheoli buchesi a busnesau gyda'i gilydd.

Y tu hwnt i 2027, bydd strategaeth newydd yn cael ei chyflwyno a fydd yn ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o'r camau gweithredu y byddwn wedi'u cymryd yn y byrdymor a'r tymor canolig gan ddilyn ein hegwyddor i weithredu ac addasu

- meysydd cyngor Bwrdd y Rhaglen. **Diffinio dull diwygiedig o ymdrin â buchesi sydd ag achosion parhaus**, gan ddefnyddio tystiolaeth o brosiectau Sir Benfro a Gogledd Cymru, ac asesu goblygiadau o ran profi, rheoli buchesi a busnesau gyda'i gilydd.

Y tu hwnt i 2027, bydd strategaeth newydd yn cael ei chyflwyno a fydd yn ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o'r camau gweithredu y byddwn wedi'u cymryd yn y byrdymor a'r tymor canolig gan ddilyn ein hegwyddor i weithredu ac addasu.

Llywodraethu, adnoddau a chyflawni

Mae cyngor Bwrdd y Rhaglen yn cynnig rhaglen integredig o newid yn hytrach na chyfres o ymyriadau ar wahân. Er mwyn eu cyflawni'n llwyddiannus bydd angen arweinyddiaeth ac atebolrwydd clir, gallu polisi a gweithredol priodol, partneriaeth effeithiol ag APHA, ffermwyr a'r proffesiwn milfeddygol a rhanddeiliaid eraill, a gwaith monitro a gwerthuso cadarn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyngor y Bwrdd y dylid parhau i ddarparu adnoddau polisi a chyflawni penodol ar gyfer TB buchol ac y dylai trefniadau llywodraethu newid o ddatblygu strategaeth tuag at ei chyflawni. Rydym hefyd yn cefnogi ei argymhelliad y dylid modelu effeithiau polisi a chynnal asesiad costau a manteision ac asesiad effaith priodol, ac y dylid cynllunio trefniadau monitro a mesurau o lwyddiant i fod yn rhan o ymyriadau o'r cychwyn cyntaf, ynghyd â strategaethau ymadael.

Serch hynny, bydd fforddiadwyedd yn parhau i fod yn ystyriaeth bwysig. Bydd newid sylweddol gwirioneddol yn gofyn am fuddsoddiad a phenderfyniadau anodd. Roedd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn cynnwys £4.5 miliwn ychwanegol yn 2026/27 i gefnogi a chyflymu gwaith ar reoli'r clefyd yn ataliol.

Casgliad

Mae Bwrdd y Rhaglen wedi nodi pecyn uchelgeisiol o gyngor ar gyflymu'r gwaith o ddileu TB buchol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r uchelgais honno ac yn derbyn y cyfeiriad a'r cyngor yn gyffredinol.

Bydd ein hymateb yn ein symud o gyngor i weithredu, a byddwn yn dechrau gwaith ar unwaith lle y gellir gwneud hyn yn gyfrifol, ac yn datblygu'r dystiolaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniadau cadarn yn y tymor hwy.

Byddwn yn defnyddio ymchwil, gwyliadwriaeth, gwaith maes, gwaith asesu a modelu epidemiolegol i roi prawf ar opsiynau, gweithio gyda ffermwyr, milfeddygon, APHA a phartneriaid eraill i ddatblygu atebion ymarferol, ymgynghori lle y bo'n briodol, a chyflwyno newidiadau mewn dilyniant bwriadol yn ôl y dystiolaeth, fforddiadwyedd a threfniadau cyflawni.

Mae'r dull gweithredu hwn yn rhoi llwybr at gynnydd y gellir ei weld yn y byrdymor a hefyd yn gosod y sylfeini ar gyfer Rhaglen Dileu TB Buchol gyfannol ac ymaddasol ar ei newydd wedd ar gyfer gwartheg, pobl a bywyd gwyllt.